

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis deintyddol Eirlys, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 3 Rhagfyr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis deintyddol Eirlys, Caernarfon, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 3 Rhagfyr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a 10 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff ym mhractis deintyddol Eirlys yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dangos bod y gwasanaeth yn ymateb i adborth gan gleifion gyda phoster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'
- Sicrhau y caiff cwynion eu cofnodi mewn ffordd lle y gellir nodi themâu rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Roedd addasiadau wedi'u gwneud er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd
- Darpariaeth dda o wasanaethau Cymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r broses o olrhain y presgripsiynau a gaiff eu rhoi
- Sicrhau y caiff cyfiawnhad dros gynnal pelydr-X ei gofnodi
- Cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd o'r broses pelydr-X.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol
- Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer dihalogi a sterileiddio cyfarpar.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd arweinyddiaeth dda ym mhractis deintyddol Eirlys, ynghyd â llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad clir i ddarparu gofal o safon uchel.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â gofynion hyfforddiant y staff
- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith
- Roedd prosesau clir ar waith i recriwtio a sefydlu staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cwblhaodd naw claf holiadur AGIC, ac roedd y sylwadau'n gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai'r staff fod wedi darparu rhagor o wybodaeth, ond fel arall, roedd yn fodlon ar y gofal a gafodd. Roedd sylw arall yn nodi y byddai lleoedd parcio ychwanegol yn ddefnyddiol. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno y gallant gael gofal yn eu dewis iaith.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae pawb yn broffesiynol iawn, yn gyfeillgar ac yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus. Aeth y staff drwy'r driniaeth yn fanwl gan ddweud y gost cyn bod angen i mi gael unrhyw driniaeth bellach. Roedd y staff yn garedig iawn a gwnaethant esbonio'r gweithdrefnau'n dda iawn"

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod taflenni, posteri a sgrin deledu yn ardal aros y cleifion a oedd yn cyflwyno gwybodaeth am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu am iechyd y geg ac iechyd cyffredinol, gan gynnwys bwyta'n iach a rhoi'r gorau i smygu.

Roedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis ond nid oedd ar gael ar ei wefan.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y practis.

Roedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, ac roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardal aros, er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd prisiau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat ar gael yn hwylus i'r cleifion yn ardal y dderbynfa.

Roedd naw egwyddor cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros, a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o safon y gofal y dylent ei gael. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd enwau'r staff clinigol a'r nyrsys a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos y tu allan i'r practis ac yn y dderbynfa. At hynny, roedd y wybodaeth yn yr ardal aros yn cynnwys ffotograffau o'r staff.

Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion a oedd am gael sgwrs gyfrinachol fynd i swyddfa rheolwr y practis neu ddeintyddfa wag.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a wnaeth gadarnhau bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb ond un a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym fod llinellau ffôn mewnol a system negeseuon uniongyrchol ar waith yn y practis. Fel arfer, byddai staff y dderbynfa yn monitro amseroedd apwyntiadau ac yn nodi unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir ar y drws ffrynt, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis. Roedd rhifau ffôn i'w defnyddio mewn argyfwng, y tu allan i'r oriau agor, ar gael y tu mewn a'r tu allan i'r practis.

Nid oedd y practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion drefnu apwyntiadau yn bersonol neu dros y ffôn.

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cadw slotiau dyddiol ar gyfer apwyntiadau brys a'u bod yn cael eu cynnig i'r cleifion yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol y cleifion. Os byddai'r slotiau presennol eisoes wedi cael eu llenwi, gellid cynnig i'r cleifion fynychu'r practis ar sail 'eistedd ac aros' er mwyn cael eu gweld pan fo'n bosibl. Roedd y practis hefyd yn sicrhau bod sesiwn ar gael bob wythnos lle gallai'r cleifion drefnu apwyntiad i gael triniaeth frys nad yw'n argyfwng.

Dywedodd pawb ond un o'r rhai a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt, pan fo'u hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Gwelwyd bod y 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddarparu yn y practis. Roedd sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ac roedd amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd gwybodaeth ar gael yn yr ardal aros a oedd yn cynghori'r cleifion bod gwasanaethau iaith Gymraeg ar gael.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi Hawliau Dynol a Chydraddoldeb ar waith yn y practis ar gyfer y cleifion yn ogystal â pholisi Cyfleoedd Cyfartal, a oedd yn gynhwysfawr, yn cyfeirio'n briodol at ddeddfwriaeth ac yn disgrifio'r mathau gwahanol o nodweddion gwarchodedig a gwahaniaethu.

Dywedodd y staff wrthym y gellid cofnodi enwau a/neu ragenwau a ffefrir yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch.

Roedd archwiliad o fynediad i bobl anabl wedi cael ei gynnal yn y practis ac roedd darpariaeth dda ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

Roedd pob rhan o'r practis wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, gyda mynediad gwastad. Roedd lle parcio dynodedig ar gyfer cleifion anabl ger y drws ffrynt. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn nodi bod angen help ar y cleifion yn eu cofnodion.

Roedd toiled rhywedd cymysg hygyrch ar gael yn ogystal â thoiledau i ddynion a menywod. Roedd y toiled rhywedd cymysg hygyrch hwn yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ac roedd handlenni cydio, toiled uwch, sinc isel a system larwm wedi cael eu gosod yno.

Roedd yr ardal aros yn cynnwys cadair ddynodedig â chefn uchel a breichiau yr oedd yn bosibl addasu eu uchder er mwyn cynorthwyo cleifion ag anawsterau symudedd. Roedd system dolen sain ar gael yn y dderbynfa er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da, ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd toiledau'r cleifion yn lân yr olwg, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo addas. Roedd biniau gwastraff mislif ar gael yn nhoiledau'r menywod a'r toiledau rhywedd cymysg.

Roedd amrywiaeth effeithiol o asesiadau risg, gweithdrefnau a rhestrau gwirio ar waith yn y practis er mwyn sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch da yn cael eu cynnal. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Roedd prosesau Cynllunio ar gyfer Trychinebau a Gweithdrefnau Brys cyfredol ar waith, a oedd yn cynnwys ffyrdd o ddelio â materion gwahanol a manylion cyswllt mewn argyfwng. Roedd y rhain yn cael eu cefnogi gan Ddadansoddiad o'r Effaith ar Fusnes a oedd yn nodi tebygolrwydd argyfyngau a'u heffaith ac unrhyw gamau y byddai'n rhaid eu cymryd i liniaru'r rhain.

Roedd dau aelod o'r staff wedi cael eu penodi'n swyddogion cymorth cyntaf ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant priodol a chyfredol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith ynghyd â chofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd tri aelod o'r staff yn gweithredu fel wardeiniaid tân ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Nodwyd mewn asesiad risg tân blaenorol nad oedd ymarferion tân yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi mynd i'r afael â hyn a bod rhaglen ymarferion bob chwe mis ar waith.

Roedd cynlluniau gwagio'r adeilad pe bai tân yn cael eu harddangos, a oedd yn dangos y llwybrau dianc a'r tair allanfa dân ddynodedig. Fodd bynnag, dim ond un allanfa dân oedd yn cynnwys arwyddion clir. Codwyd hyn gyda rheolwr y practis a chafodd arwyddion ychwanegol eu gosod yn ystod yr arolygiad. Rhoddodd hyn sicrwydd i ni fod y practis wedi mynd i'r afael ag unrhyw risg uniongyrchol i ddiogelwch y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylid adolygu'r asesiad risg tân er mwyn nodi a oedd angen gweithredu ymhellach.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r asesiad risg tân er mwyn nodi unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â threfniadau gwagio'r adeilad.

Roedd diffoddwyr tân yn cael eu storio'n gywir, a dengys y cofnodion eu bod wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiadau y cawsant eu gwasanaethu ddiwethaf wedi eu cofnodi ar y diffoddwyr tân eu hunain a gwnaethom nodi nad oedd y seliau diogelwch yn eu lle ar dri diffoddwr tân. Aeth rheolwr y practis i'r afael â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad drwy gysylltu â'r cwmni gwasanaethu er mwyn trefnu iddo osod seliau diogelwch newydd cyn gynted â phosibl a gofyn i'r peirianwyr gwasanaethu gofnodi'r dyddiadau yn briodol yn y dyfodol.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT), a bod adroddiad wedi'i gwblhau ar y gosodiadau trydanol.

Roedd ardal newid fawr ar gael i'r staff gyda loceri i storio eiddo personol. Nid oedd yn bosibl cloi drysau'r ardal newid ac roedd lleoliad yr ardal, ger toiledau'r cleifion, yn cynyddu'r risg y gallai rhywun heb awdurdod gael mynediad i'r ardal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r risg y gallai rhywun heb awdurdod gael mynediad i ardal newid y staff a rhoi mesurau diogelwch ar waith fel sy'n ofynnol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig.

Gwelsom fod trefn lanhau effeithiol yn y practis, a bod y cyfarpar a'r deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n briodol. Roedd yr holl gadeiriau yn ardal aros y cleifion wedi'u gorchuddio â deunyddiau y gellid eu sychu'n lân.

Roedd ystafell ddynodedig ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Nodwyd bod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac roedd y staff yn eu deall yn dda, roedd cyfarpar yn cael ei wirio'n rheolaidd hefyd.

Roedd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC a fynegodd farn yn teimlo bod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith. Nid oedd y practis yn dosbarthu meddyginiaethau yn uniongyrchol ac roedd y padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel. Gwnaethom nodi bod rhifau cyfres presgripsiynau yn cael eu nodi wrth eu rhoi i'r cleifion, ond nid oedd unrhyw gofnodlyfr ar gyfer y presgripsiynau mewn stoc. Gwnaethom gynghori y dylid cofnodi'r rhifau cyfres er mwyn sicrhau y gellir olrhain presgripsiynau yn briodol yn ogystal â nodi unrhyw anghysondebau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhifau cyfres presgripsiynau eu cofnodi er mwyn sicrhau y gellir olrhain stoc sy'n cyrraedd y practis a'r stoc a gaiff ei rhoi i gleifion yn ogystal â chroesgyfeirio atynt.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd dyddiad y cyffuriau brys yn gyfredol ac roeddent wedi'u storio'n briodol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel fel rhan o'u hyfforddiant ar ymdrin ag argyfyngau meddygol.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau diogelu cyfredol a chynhwysfawr ar waith a'u bod ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd siartiau llif y gellid cyfeirio atynt yn gyflym yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd i staff hefyd. Fodd bynnag, nid oedd y gweithdrefnau yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu yn cael eu diweddarau i gynnwys cyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu Cymru a sicrhau bod y staff yn ymwybodol ohonynt.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel tri. Roedd hyn yn enghraifft o arfer da.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar, gan gynnwys y cywasgydd.

Roedd ffeil diogelu rhag ymbelydredd cyflawn a stocrestr o gyfarpar pelydr-X a chofnodion cynnal a chadw ar waith yn y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Roedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydr-X ar gael yn hwylus i'r cleifion.

Gwnaethom nodi bod y practis yn defnyddio uned brosesu ddigidol ar gyfer delweddau pelydr-X ond nad oedd yn cynnal unrhyw brosesau sicrhau ansawdd ar y trefniadau prosesu delweddau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud yn siŵr bod prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar y trefniadau prosesu delweddau pelydr-X a'u hansawdd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Gwelsom dystiolaeth y byddai'r staff yn dod o hyd i ganllawiau a chyngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod o safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd dewis iaith y cleifion wedi cael ei gofnodi ac nad oedd y cyfiawnhad dros ddod i gysylltiad â phelydr-X wedi ei gynnwys yn gyson.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfiawnhad dros gynnal pelydr-X ei gynnwys yng nghofnodion y cleifion hynny sydd wedi dod i gysylltiad ag ef.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei nodi yn eu cofnodion.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn anelu at ddiwallu eu hanghenion lle y bo'n bosibl.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan y staff i holiadur AGIC ar y cyfan. Roedd pob un yn cytuno mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y practis, ac y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn briodol a bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai mwy o staff yn helpu i ddiwallu anghenion y gwasanaeth. Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar yr hyfforddiant roeddent wedi ei gael ac roedd pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cymryd. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y broses recriwtio a'r gwiriadau a oedd yn cael eu cynnal ar ddarpar gyflogeion. Roedd y gwiriadau'n cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio yn y DU, statws brechu, cymwysterau a geirdaon. At hynny, roedd y practis yn cynnal gwiriadau gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Roedd rhestrau gwirio sefydlu yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y staff yn deall materion a oedd yn ymwneud â'r practis a'r safle, ac unrhyw faterion a oedd yn benodol i'w rôl.

Roedd rheolwr y practis yn defnyddio systemau i fonitro gofynion hyfforddiant y staff a'u cynnydd. Roedd rhaglen waith wrthi'n cael ei datblygu i goladu cofnodion gweinyddol a chofnodion hyfforddiant er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r staff gael gafael ar wybodaeth gyflawn yn ddidrafferth.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd blwch awgrymiadau a darnau o bapur yn nerbynfa'r practis i'r cleifion roi adborth neu sylwadau. Anogir y cleifion i roi adborth ar y system adolygiadau ar-lein hefyd.

Gwelsom dystiolaeth o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth gan gleifion, fel darparu peiriant dŵr yn ardal y dderbynfa. Nid oedd gan y practis ddull i ddangos y gweithredwyd ar yr adborth gan gleifion. Gwnaethom awgrymu y gellid cyfleu hyn i'r cleifion gan ddefnyddio poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Dylai'r practis roi gwybod i'r cleifion pan fydd camau wedi'u cymryd o ganlyniad i adborth, gan ddefnyddio poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion yr unigolyn y dylid cysylltu ag ef, amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen, yn ogystal â manylion cyswllt ar gyfer cyrff allanol priodol.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom gynghori y byddai cofnodlyfr cyffredinol yn helpu i nodi unrhyw themâu rheolaidd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff system ei rhoi ar waith i nodi unrhyw faterion neu themâu rheolaidd sy'n codi yng nghwynion y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym y caiff unrhyw gamau gweithredu neu wersi a ddysgwyd o gwynion ac adborth eu rhannu yn ystod cyfarfodydd staff fel rheol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion yn briodol. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu storio a'u cynnal yn

electronig, ac roedd copïau papur hefyd ar gael. Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw fel cyfuniad o gofnodion electronig a chofnodion papur.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd systemau priodol ar waith yn y practis i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglen o archwiliadau clinigol, proses Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd flynyddol, adolygiad o adborth gan gleifion a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth dda o archwiliadau wedi cael eu cynnal, gan gynnwys archwiliadau rheoli heintiau, ansawdd radiograffig, sicrwydd ansawdd y cyfarpar ymbelydredd, rhagnodi gwrthfotigau, rhoi'r gorau i smygu a chadw cofnodion clinigol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd prosesau rhyngweithio â phartneriaid y system yn digwydd dros y ffôn neu dros e-bost fel arfer, ac roedd atgyfeiriadau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio system ar-lein.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Dim ond un o'r tair allanfa dân oedd yn cynnwys arwyddion clir.	Gallai hyn gynyddu'r risg i ddiogelwch y cleifion pe bai tân.	Cafodd hyn ei godi gyda rheolwr y practis.	Cafodd arwyddion ychwanegol eu gosod yn ystod yr arolygiad. Ymdriniwyd â'r pryder uniongyrchol, a dylid cynnal adolygiad o'r asesiad risg tân er mwyn nodi os oes angen gweithredu ymhellach.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis deintyddol Eirlys, Caernarfon

Dyddiad yr arolygiad: 3 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dd/G

Teitl swydd: Dd/G

Dyddiad: Dd/G

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis deintyddol Eirlys, Caernarfon

Dyddiad yr arolygiad: 3 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis ond nid oedd ar gael ar ei wefan.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 6	Rydym wedi anfon taflen y practis at y dylunwyr gwefan er mwyn ei hychwanegu at wefan Eirlys	Dawn Gorle	31/01/2025
2.	Nid oedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir. Datryswyd y pryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad, ond dylid cynnal adolygiad pellach.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r asesiad risg tân er mwyn nodi unrhyw gamau gweithredu pellach mewn perthynas â threfniadau gwagio'r adeilad.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Rydym wedi rhoi gwybod i'r Contractwr Tân er mwyn iddo edrych ar yr holl arwyddion yn y practis	Dawn Gorle	31/01/2025
3.	Nid oedd yn bosibl cloi'r ystafell a ddefnyddir gan y staff i newid a storio	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r risg y gallai rhywun heb awdurdod gael mynediad i ardal newid	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22	Rydym wedi rhoi gwybod i'r Contractwr cynnal a chadw er	Dawn Gorle	31/01/2025

	eitemau personol ac roedd lleoliad yr ystafell, ger toiledau'r cleifion, yn cynyddu'r risg y gallai rhywun heb awdurdod gael mynediad i'r ardal.	y staff a rhoi unrhyw fesurau diogelwch ar waith fel sy'n ofynnol.		mwyn iddo osod clo newydd ar y drws		
4.	Roedd rhifau cyfres y padiau presgripsiwn yn cael eu nodi wrth eu rhoi i'r cleifion, ond nid oedd unrhyw gofnodlyfr ar gyfer y presgripsiynau mewn stoc.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhifau cyfres presgripsiynau eu cofnodi er mwyn sicrhau y gellir olrhain stoc sy'n cyrraedd y practis a'r stoc a gaiff ei rhoi i gleifion yn ogystal â chroesgyfeirio atynt.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(4)(a)	Mae taenlen wedi cael ei chreu sydd bellach yn cael ei chadw gyda phob pad presgripsiwn, a byddwn yn defnyddio'r daenlen hon pan fydd padiau newydd yn cyrraedd yn y dyfodol	Dawn Gorle	31/01/2025
5.	Nid oedd gweithdrefnau diogelu'r practis yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu yn cael eu diweddarau i gynnwys cyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu Cymru a sicrhau bod y staff yn ymwybodol ohonynt.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14(1)(a)	Mae'r Polisi Diogelu wedi cael ei ddiweddarau a chyfeiriwyd at yr ap Diogelu yn ystod cyfarfod y practis	Dawn Gorle	31/01/2025
6.	Roedd uned brosesu ddigidol yn cael ei defnyddio ar gyfer	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud yn siŵr bod prosesau sicrhau	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad	Rydym wedi trafod y mater â'r Goruchwylydd Diogelu	Dawn Gorle	31/01/2025

	delweddau pelydr-X, ond nid oedd dulliau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal ar y trefniadau prosesu delweddau.	ansawdd yn cael eu cynnal ar y trefniadau prosesu delweddau pelydr-X a'u hansawdd.	Meddygol) 2017, Rheoliad 15	Rhag Ymbelydredd a gadarnhaodd y weithdrefn ac mae bellach wedi cael ei rhoi ar waith		
7.	Nid oedd cyfiawnhad dros ddod i gysylltiad â phelydr-X wedi'i gynnwys yng nghofnodion y cleifion bob amser.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfiawnhad dros gynnal pelydr-X ei gynnwys yng nghofnodion y cleifion hynny sydd wedi dod i gysylltiad ag ef.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)	Tynnwyd sylw pob clinigydd at y camau gweithredu ac ychwanegwyd y mater at yr agenda ar gyfer cyfarfodydd misol y clinigwyr er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith yn y dyfodol	Dawn Gorle	31/01/2025
8.	Nid oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi fel mater o drefn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion ei nodi yn eu cofnodion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)	Tynnwyd sylw staff y Dderbynfa at y mater hwn er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei chasglu gan y cleifion.	Dawn Gorle	31/01/2025
9.	Nid oedd gan y practis ddull i ddangos y gweithredwyd ar yr adborth gan gleifion.	Dylai'r practis roi gwybod i'r cleifion pan fydd camau wedi'u cymryd o ganlyniad i adborth, gan ddefnyddio	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)	Mae poster wedi cael ei greu a chaiff ei ddiweddarau yn ôl yr angen	Dawn Gorle	31/01/2025

		poster ‘dywedoch chi, gwnaethom ni’.				
10.	Roedd cwynion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom gynghori y byddai cofnodlyfr cyffredinol yn helpu i nodi unrhyw themâu rheolaidd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff system ei rhoi ar waith i nodi unrhyw faterion neu themâu rheolaidd sy'n codi yng nghwynion y cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21	Caiff y camau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â'r mathau o “gwynion a phryderon” eu cofnodi a'u diweddarau yn y ffolder / cofnodlyfr cwynion. Trafodwyd y mater â staff y dderbynfa ac yn ystod cyfarfod y practis	Dawn Gorle	31/01/2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dawn Gorle

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 9 Ionawr 2025